

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL TANWYDD HEDFAN CYNALIADWY 2025

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru¹ os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.
2. Cyflwynwyd y **Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy** ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 14 Mai 2025. Mae'r Bil ar gael yn: [Y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy](#)

Amcan(ion) y polisi

3. Amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU yw mynd i'r afael ag allyriadau o deithiau hedfan trwy amrywiaeth o fesurau, er bod rhai atebion technolegol i leihau allyriadau o deithiau hedfan, fel teithiau allyriadau sero, ar gam datblygu cymharol gynnar. Tanwydd Hedfan Cynaliadwy (SAF) felly yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau allyriadau o deithiau hedfan ar hyn o bryd, gan ei fod ar gael heddiw fel tanwydd parod ac nad oes angen addasiadau i awyrennau presennol. Mae'r allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig o SAF ar gyfartaledd 70% yn llai na thanwydd jet ffosil ar sail cylch bywyd. Disgwylir i SAF chwarae rôl hanfodol wrth ddatgarboneiddio hedfan hyd at 2050 a thu hwnt. Mae Llywodraeth y DU yn glir ei bod eisiau gweld y DU yn cael ei chyfran o'r farchnad SAF fyd-eang trwy chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu, cynhyrchu a defnyddio SAF. Ar gyfer cyfleusterau cynhyrchu, mae gwneud y naid o labordy i raddfa fasnachol wedi bod yn anodd gan fod cyfleusterau arddangos llai yn ddwys o ran cyfalaf ac yn aml yn amhroffidiol. Wedyn gall gweithfeydd masnachol fel arfer gostio £600 miliwn i £2 biliwn i sicrhau arbedion maint ac maent yn tueddu i redeg ar golled yn ystod eu blynyddoedd cyntaf. Mae gweithfeydd cyntaf o'u bath yn aml yn cael trafferth sicrhau buddsoddiad mawr gan ddarparwyr ecwiti a dyled oherwydd nifer o risgiau cysylltiedig, gan gynnwys sicrwydd refeniw. Diffiniodd ymateb Llywodraeth y DU i gyngor annibynnol a gyhoeddwyd gan Philip New, sef 'Developing a UK Sustainable Aviation Fuel Industry', y prif rwysterau i fuddsoddiad y mae cynhyrchwyr SAF wedi'u hwynebu hyd yn hyn:

¹ Noder, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, rydym yn cyfeirio at y ddeddfwrfa yng Nghymru fel "Senedd Cymru" y tro cyntaf ac fel "y Senedd" ar ôl hynny oni fydd y cyd-destun yn nodi fel arall.

- Risg o ran technoleg. Mae technolegau SAF uwch ar gam datblygu cynnar ac mae angen arloesi ac arddangos cyn eu bod yn barod i'w defnyddio yn fasnachol. A hyd yn oed wedyn mae risg na fydd y safle yn gweithredu fel y disgwylwyd.
 - Risg o ran deunydd crai. Mae cystadleuaeth sylweddol am adnoddau y gellir eu defnyddio fel deunydd crai ar gyfer cynhyrchu SAF. Mae risg na fydd cynhyrchwyr, yn absenoldeb contractau hirdymor ar gyfer deunydd crai, yn denu deunyddiau digonol i gynnal y lefelau cynhyrchu a'r refeniw a ragwelir.
 - Risg o ran adeiladu. Mae adeiladu safle SAF yn cyflwyno risgiau sy'n achosi oedi neu effaith ar fanylebau perfformiad y safle. Gallai'r rhain fod oherwydd cyflwr y ddaear, rhyngwynebau rhwng gwahanol rannau, a thanamcangyfrif o'r amser a'r gost ar gyfer adeiladu a chomisiynu.
 - Risg o ran sicrwydd refeniw. Oherwydd ansicrwydd ynghylch cost SAF yn y dyfodol ac nad yw pris y farchnad wedi'i ddiffinio, mae diffyg hyder am y refeniw y bydd cynhyrchu SAF yn ei ddenu.
4. Mae mecanwaith sicrwydd refeniw a gyflwynir yn y Bil yn lliniaru'r risgiau hyn i ddarparu'r cyllid trwy warantu pris ar gyfer SAF cymwys prosiect dros gyfnod diffiniedig; defnyddio contractau cyfraith breifat, a weinyddir gan wrthbarti gweithredol annibynnol, i leihau'r risg o newidiadau polisi a rheoleiddio; a chynyddu cystadleurwydd y prosiectau hyn ar gyfer cyllid gyda thechnolegau carbon isel eraill. Trwy leihau'r risgiau hyn, gall leihau cost cyfalaf a chynyddu'r siawns y bydd prosiectau cyntaf o'u bath ar raddfa fasnachol yn sicrhau penderfyniadau buddsoddi terfynol llwyddiannus.

Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan yr Adran Drafnidiaeth.
6. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer:
- creu contractau sicrwydd refeniw a mecanweithiau i gefnogi contractau o'r fath. Bwriad hyn yw gwireddu'r manteision economaidd sy'n gysylltiedig â'r diwydiant tanwydd hedfan cynaliadwy domestig sy'n datblygu, helpu i sicrhau cyflenwad tanwydd o'r fath a sefydlu'r DU fel arweinydd byd-eang mewn datgarboneiddio yn y sector; ac
 - ardollau ar gyflenwyr tanwydd hedfan penodol, i ariannu'r rhwymedigaethau a grëir o dan y contractau sicrwydd refeniw.
7. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu â'r Adran Drafnidiaeth ers mis Rhagfyr 2024 i drafod cynnwys ac amseriad cyflwyno'r Bil i sesiwn seneddol Tŷ'r Cyffredin. Cawsom gopi terfynol o'r Bil ar 8 Mai.

8. Cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddogfen *'Sustainable aviation fuels revenue certainty mechanism: revenue certainty options'* rhwng 25 Ebrill 2024 a 20 Mehefin 2024². Ni ddarparodd Llywodraeth Cymru unrhyw ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

9. Yn fy marn i, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â chymalau 1 i 15.
10. Mae cymal 1 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo cwmni sy'n eiddo i Weinidog y Goron ("y gwrthbarti") i gynnig ymrwymo i gontract sicrwydd refeniw gyda chynhyrchydd tanwydd hedfan cynaliadwy. Yn gryno, mae hyn yn sicrhau bod y cynhyrchydd yn cyflawni pris penodol ar gyfer pob uned o danwydd a gyflenwir. Gan fod y cymal hwn yn ceisio annog twf diwydiant tanwydd hedfan cynaliadwy sefydlog yn y DU, fy marn i yw ei fod yn ymwneud â datblygu economaidd a diogelu'r amgylchedd. Gan fod y materion hynny wedi'u datganoli, rydym o'r farn bod y prawf yn RhS29 yn cael ei fodloni.
11. Mae cymal 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol roi gwybod i'r cynhyrchydd yr effeithir arno gan y cyfarwyddyd a gyhoeddwyd o dan gymal 1. Mae hefyd yn galluogi i gyfarwyddydau o'r fath gael eu dirymu. Gan fod y cymal hwn yn cefnogi gweithredu cyfarwyddydau a gyhoeddwyd o dan gymal 1, fy marn i yw ei fod hefyd yn ymwneud â datblygu economaidd a diogelu'r amgylchedd ac felly yn bodloni'r prawf yn RhS29.
12. Mae cymal 3 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch cynnal cofrestr o wybodaeth sy'n ymwneud â'r contractau a chyhoeddi'r contractau neu fanylion amdanynt. Gan fod y cymal hwn yn cefnogi gweithredu cyfarwyddydau a gyhoeddwyd o dan gymal 1, fy marn i yw ei fod yn ymwneud â datblygu economaidd a diogelu'r amgylchedd ac felly yn bodloni'r prawf yn RhS29.
13. Mae cymal 4 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi'r cwmni sy'n eiddo i Weinidog y Goron a fydd yn ymrwymo i'r contractau gyda chynhyrchwyr (fel ei fod yn dod yn wrthbarti). Gan na ellir defnyddio cymal 1 nes bod y pŵer yn y cymal hwn wedi'i arfer, fy marn i yw bod y cymal hwn hefyd yn ymwneud â materion datganoledig.
14. Mae cymal 5 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud cynllun i drosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r gwrthbarti i wrthbarti newydd, os yw dynodiad cwmni fel gwrthbarti yn cael ei ddirymu. Gall y cynllun gynnwys darpariaeth sydd yr un fath neu'n debyg i Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (O.S. 2006/246). Gan fod y cymal hwn yn cefnogi gweithredu cyfarwyddydau a

² <https://www.gov.uk/government/consultations/sustainable-aviation-fuels-revenue-certainty-mechanism-revenue-certainty-options>

gyhoeddwyd o dan gymal 1, fy marn i yw ei fod hefyd yn ymwneud â datblygu economaidd a diogelu'r amgylchedd, sy'n faterion datganoledig.

15. Mae cymal 6 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i rai cyflenwyr tanwydd hedfan dalu ardoll fel y gall y gwrthbarti ariannu costau yr eir iddynt o dan y Ddeddf Tanwydd Hedfan Cynaliadwy. Bydd yr ardoll yn ariannu'r mecanwaith sicrwydd refeniw ac felly, rhaid ystyried y cymal yng nghyd-destun gweithredu'r cyfarwyddydau a ddyroddwyd o dan gymal 1 (sy'n ceisio annog twf diwydiant tanwydd hedfan cynaliadwy sefydlog yn y DU). O ystyried y berthynas honno, rwy'n ystyried bod y prawf yn RhS29 yn cael ei fodloni.
16. Mae cymal 7 yn darparu y gall y rheoliadau a wneir o dan gymal 6 ei gwneud yn ofynnol darparu cyllid cyfochrog mewn perthynas â rhwymedigaethau i dalu'r ardoll. Mae'r cymal hwn yn cefnogi gweithredu cymal 6, ac felly hefyd yn rhoi sylw i faterion datganoledig.
17. Mae cymal 8 yn darparu y gall y rheoliadau a wneir o dan gymal 6 roi swyddogaethau i'r gwrthbarti ynghylch gweinyddu a gorfodi'r rheoliadau, ac ynghylch datrys anghydfodau (gan gynnwys trwy gyflafareddu ac apelau). Mae'r cymal hwn yn cefnogi gweithredu cymal 6, ac felly hefyd yn rhoi sylw i faterion datganoledig.
18. Mae cymal 9 yn darparu y gall y rheoliadau a wneir o dan gymal 6 wneud darpariaeth ynghylch sut y mae'r ardoll i'w chyfrifo neu ei phenderfynu. Mae'r cymal hwn yn cefnogi gweithredu cymal 6, ac felly hefyd yn rhoi sylw i faterion datganoledig.
19. Mae cymal 10 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch talu cyllid dros ben i'r rhai sydd wedi gorfod talu'r ardoll ac ynghylch gofynion i sicrhau bod buddion o daliadau o'r fath yn cael eu trosglwyddo i gwsmeriaid. Mae'r cymal yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori cyn gwneud y rheoliadau; mae hyn yn cynnwys dyletswydd i ymgynghori â Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'u cynnwys yn Neddf gan y Senedd.
Gan fod y cymal hwn yn gysylltiedig â rheoli'r mecanwaith sicrwydd refeniw yn effeithiol, sydd â'r bwriad o annog twf diwydiant tanwydd hedfan cynaliadwy sefydlog yn y DU, fy marn i yw ei fod yn ymwneud â materion datganoledig.
20. Mae cymal 11 (a'r Atodlen) yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i osod cosb ariannol ar berson heblaw'r gwrthbarti, os yw'r person wedi torri gofyniad a osodwyd gan rheoliadau ardoll a wnaed o dan gymal 6 (cyn belled â bod y rheoliadau, ar yr adeg y torrwyd y gofyniad, yn darparu y gellid gosod cosb o'r fath), neu wedi torri gofyniad mewn rheoliadau a wneir o dan gymal 10(1)(b) sy'n ymwneud â throsglwyddo buddiannau ad-daliadau i gwsmeriaid. Gellir gwneud rheoliadau o dan gymal 11

mewn perthynas â swm y gosb ac mae'r Atodlen yn nodi sut y bydd y gosb yn cael ei rhoi a'i thrin. Gan fod y cymal hwn yn gysylltiedig â rheoli'r mecanwaith sicrwydd refeniw yn effeithiol, sydd â'r bwriad o annog twf diwydiant tanwydd hedfan cynaliadwy sefydlog yn y DU, fy marn i yw ei fod yn ymwneud â datblygu economaidd a diogelu'r amgylchedd. Gan fod y materion hynny wedi'u datganoli, rwy'n ystyried bod y prawf yn RhS29 yn cael ei fodloni.

21. Mae cymal 12 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfarwyddo'r gwrthbarti mewn perthynas â'r swyddogaethau a roddir iddo o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf Tanwydd Hedfan Cynaliadwy. Gan fod y cymal hwn yn gysylltiedig â rheoli'r mecanwaith sicrwydd refeniw yn effeithiol, fy marn i yw ei fod yn rhoi sylw i faterion datganoledig.
22. Mae cymal 13 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwrthbarti gydymffurfio ag unrhyw ofynion a osodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu gwybodaeth neu gyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r gwrthbarti. Gan fod y cymal hwn yn gysylltiedig â rheoli'r mecanwaith sicrwydd refeniw yn effeithiol, fy marn i yw ei fod hefyd yn rhoi sylw i faterion datganoledig.
23. Mae cymal 14 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu cymorth ariannol, mewn unrhyw ffurf ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau, i'r gwrthbarti. Gan fod y cymal hwn yn gysylltiedig â rheoli'r mecanwaith sicrwydd refeniw yn effeithiol, fy marn i yw ei fod hefyd yn rhoi sylw i faterion datganoledig.
24. Mae cymal 15 yn darparu bod pwerau o dan y Bil i wneud rheoliadau yn cynnwys pwerau i wneud darpariaethau canlyniadol a throsiannol. Mae hefyd yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer y rheoliadau. Mae'r cymal hwn yn ategu'r pwerau gwneud rheoliadau yn y Bil, sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Felly, ystyrir bod y cymal hwn hefyd yn bodloni'r prawf yn RhS29.

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

25. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen LCM ar gyfer cymalau 1, 2, 3, 4, 5, 12, 13, 14, a 15, yn ogystal â rhai agweddau ar gymalau 10 ac 11.
26. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU yn meddwl bod angen LCM ar gyfer cymalau 6, 7, 8 a 9, a rhai agweddau ar gymalau 10 ac 11. Serch hynny, am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 15-20, credaf mai'r ddadl gryfach yw eu bod yn bodloni'r prawf yn RhS29 ac felly rwy'n gosod LCM mewn perthynas â'r darpariaethau hynny.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Tanwydd Hedfan Cynaliadwy

27. Mae datgarboneiddio hedfan yn un o'r heriau byd-eang mwyaf. Er bod y diwydiant hedfan ond yn cyfrif am 2-3% o allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang heddiw, rhagwelir y bydd yn un o'r allyrwyr gweddilliol mwyaf yn 2050 wrth i sectorau eraill â mwy o botensial i leihau allyriadau wneud hynny. Ein huchelgais yw datgarboneiddio pob sector o'n heconomi.
28. Mae cyllidebau carbon Cymru yn cynnwys holl allyriadau hedfan Cymru, gan gynnwys teithiau hedfan domestig a thramor. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgeisiau o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yng Nghymru drwy Sero Net Cymru ac mae hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda llywodraethau eraill yn y DU i gyflawni camau polisi cydgyssylltiedig a fydd yn cyflawni ein targedau lleihau allyriadau priodol.
29. Mae polisi hedfanaeth yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU. Mae natur hedfan yn y DU yn golygu bod llawer o deithwyr o Gymru yn defnyddio, neu'n gallu dewis defnyddio, meysydd awyr yn Lloegr sydd â goblygiadau i effeithiolrwydd posibl polisïau yng Nghymru.
30. Cydnabyddir yn gyffredinol nad yw'r her fwyaf o ran gwneud hedfan sifil yn gynaliadwy yn gysylltiedig ag unrhyw ateb technegol penodol, ond gwneud i newid cadarnhaol ddigwydd ar y cyflymder gofynnol. Mae'r cynnydd i sero net yn dibynnu ar bob rhan o'r gadwyn gyflenwi yn gweithio tuag at nod cyffredin, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr awyrennau, cwmnïau hedfan, meysydd awyr a'u darparwyr gwasanaeth.
31. Rydym yn ystyried sut y gall Cymru gefnogi datblygu a mabwysiadu technolegau hedfan mwy cynaliadwy orau.
32. Gyda sector awyrofod hirsefydlog yng Nghymru, ei hanes diwydiannol cyfoethog a'i weithlu medrus iawn, sy'n edrych tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy, rydym mewn sefyllfa dda i chwarae rôl sylweddol wrth ddatblygu deunyddiau crai ar gyfer SAF o ffynonellau nad ydynt yn amaethyddol ac rydym eisoes yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn hyn o beth.
33. Gall datblygiadau mewn Tanwydd Hedfan Cynaliadwy fod yn ddadleuol. Nid yw'r byd yn cynhyrchu digon i gwrdd â'r galw presennol gan y diwydiant. Mae nifer o ffyrdd o'i gynhyrchu, gan gynnwys o gnydau a deunyddiau crai penodol, ond byddai angen defnyddio ardaloedd helaeth o dir fferm i ateb y galw byd-eang.
34. Fodd bynnag, rydym yn gefnogol o'r Bil, gan ei fod yn ystyried bod SAF yn ffordd o leihau allyriadau carbon dros dro, wrth i'r diwydiant fynd ati i ddatblygu awyrennau allyriadau sero newydd, megis awyrennau sy'n defnyddio tanwydd hydrogen a thrydan.

Goblygiadau ariannol

35. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yng Nghymru.

Casgliad

36. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda llywodraethau eraill yn y DU i gyflawni camau polisi cydgysylltiedig a fydd yn cyflawni ein targedau o ran leihau allyriadau. Mae datgarboneiddio hedfan yn un o'n heriau byd-eang mwyaf ac mae hyn yn gofyn am weithredu ar lefel y DU gyfan trwy Fil ar gyfer y DU. Bwriad y mecanwaith sicrwydd refeniw SAF a gyflwynwyd fel rhan o'r Bil yw bod yn fesur cyfyngedig o ran amser i ysgogi marchnad gynnar ar gyfer SAF. Ni fydd ei angen mwyach unwaith y bydd gan fuddsoddwyr hyder ym mhris y farchnad a bod y dechnoleg gyntaf o'r fath wedi profi ei hun ar raddfa fasnachol. Rydym ystyried SAF fel ateb dros dro i leihau carbon, wrth i'r diwydiant edrych ar ddatblygu awyrennau allyriadau sero, fel awyrennau sy'n defnyddio tanwydd hydrogen a thrydan.
37. Felly, rwyf yn argymhell y dylai Senedd Cymru gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydysyniad.

Rebecca Evans AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

9 Mehefin 2025